



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

16/05/2022

Ddydd Iau diwethaf gwnaethom ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys ar draws ein safleoedd a'n cymunedau – cynhaliodd nyrsys a'u cydweithwyr ddathliadau i nodi'r achlysur a myfyrio ar yr hyn sy'n arbennig ac yn unigryw am y proffesiwn nyrsio a'r balchder rydym ni i gyd yn ei deimlo. Manteisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ruth Walker, a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio ar y cyfle i ymweld â chydweithwyr nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd i ddiolch iddynt am eu gwaith caled, eu tosturi a'u hymroddiad parhaus.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn lansiad yr ymgyrch genedlaethol 'Yma am Oes', a fydd yn rhoi sylw i'r ystod amrywiol o yrfaoedd sydd ar gael i nyrsys a bydwagedd. Bydd cydweithwyr yn cefnogi'r ymgyrch yn ystod y mis nesaf drwy rannu eu straeon, codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o ddatblygiad gyrfa a chyfleoedd sydd ar gael ac ysbrydoli eraill i ddilyn gyrfaedd yn y proffesiwn.

Fel nyrs fy hun, teimlaf falchder mawr o fod yn aelod o'r teulu nyrsio a bydwreigiaeth ac yn ffodus i allu gweithio ochr yn ochr â chynifer o nyrsys, bydwagedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd talentog, yn ogystal â'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gwneud cymaint bob dydd i gyfrannu at driniaeth a gofal tosturiol ar gyfer cleifion a'u hanwyliaid. Diolch i chi i gyd.

Ddydd Sadwrn, buom hefyd yn dathlu Ymarferwyr yr Adran Lawdriniaethau (ODPau) a'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud mewn theatrau llawdriniaethau, ym maes anestheteg, llawfeddygaeth ac adferiad. Mae ODPau yn helpu i baratoi'r amgylchedd a'r holl offer a chyfarpar angenrheidiol ar gyfer anesthetig, llawdriniaeth neu adferiad cleifion fel eu bod yn cael y gofal a'r driniaeth orau posibl, yn ogystal â chefnogi cleifion a chydweithwyr ar hyd y daith. Heb arbenigedd proffesiynol ac ymrwymiad ODPau, ni fyddai'n bosibl darparu gofal llawfeddygol ac anesthetig na'r triniaethau sydd eu hangen ar gymaint o gleifion.



Fe wnes i fwynhau cwrdd â Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'i gydweithiwr, rheolwr cydberthnasau y Bwrdd Iechyd. Roedd yn dda gallu sefydlu perthynas ac i mi ddeall y gwahaniaeth rhwng pwerau statudol a rheoleiddiol y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn Lloegr ac AGIC.

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae'n bwysig iawn ein bod yn agored i graffu, arolygiadau ac adborth a all roi sicrwydd pwysig i'r cyhoedd ein bod yn darparu gwasanaethau yn y ffordd gywir ac i safon wych o ran ansawdd profiad a chanlyniadau. Mae arolygiadau hefyd yn rhoi'r cyfle i ni ddysgu a gwella, sy'n rhywbeth rwy'n wirioneddol gefnogol ohono ac yn dymuno parhau i ymgorffori yn ein diwylliant sefydliadol. Rwy'n gwybod bod arolygiadau, yn enwedig pan fyddant yn annisgwyl, yn gallu achosi pryder ond byddwn yn ein hannog i groesawu'r cyfle, pan fydd yn codi, i leisio barn a bod yn onest, rhannu'r pethau rydych chi'n fwyaf balch ohonynt a hefyd meysydd lle hoffech chi weld gwelliant. Croesewir ffocws ar welliant parhaus ochr yn ochr â gonestrwydd a thryloywder bob amser gan gydweithwyr AGIC wrth iddynt gyflawni eu busnes pwysig.

Rwyf wedi parhau â'm hymweliadau yr wythnos hon a chefais fore ysbrydoledig yn Ysbyty Deintyddol y Brifysgol (UDH) lle cefais gwrdd â Hayley Dixon, Rheolwr Cyffredinol, yr Athro Ivor Chestnutt, Cyfarwyddwr Clinigol, Nicola Innes, Pennaeth yr Ysgol Deintyddiaeth a Riah-Jayne Jones, Rheolwr Busnes yr Ysgol. Mae'r UDH yn enghraifft wych o'r cydweithio a'r gwaith partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd i lunio a darparu gwasanaethau i'n cymunedau wrth hyfforddi a datblygu deintyddion, therapyddion deintyddol a nyrsys deintyddol y dyfodol.

Pleser pur oedd cerdded o amgylch y cyfleusterau. Roedd y naws yn wych; gweithgar a phwrpasol ond hefyd yn gynnes ac yn groesawgar. Cefais gyfle i gwrdd a siarad â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a goruchwylwyr academiaidd ac ymarfer wrth iddynt ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion, yn mireinio eu sgiliau ar fodelau ac yn ymarfer llawdriniaeth deintgig ar bennau moch. Roedd pawb yn llawn egni ac yn ymddangos fel pe baent yn mwynhau dysgu a datblygu sgiliau. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr UDH yn cynnal yr enw da a'r proffil y mae'n ei haeddu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac a fydd, yn y pen draw, yn sicrhau gofal o ansawdd uchel i'n dinasyddion. Mae'r UDH, sydd yn safle 46 yn rhestr ysbytai deintyddol y byd ar hyn o bryd, yn denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i ddysgu a datblygu ochr yn ochr â ni, sy'n wych.

Gwelais hefyd beth o'r gwaith argraffu 3D CAD sy'n digwydd i arddangos arloesedd mewn deintyddiaeth a chefais gyfle i ymweld â'r labordai lle mae'r timau'n gweithio'n galed i gynhyrchu dannedd gosod i gleifion i'w cefnogi gyda'u hiechyd deintyddol ac i wella ar ôl triniaethau adferol ac adlunio.

Roedd yn ddiddorol dysgu am sut mae gwaith yr UDH yn cyd-fynd â'r darlun ehangach o Ymarfer Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol. Mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod pawb sydd angen gofal deintyddol yn gallu cael mynediad ato. Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, fod rôl UDH, a darpariaeth gwasanaethau iechyd deintyddol a gwasanaethau ataliol yn ehangach, yn rhan bwysig a hanfodol o'n strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol ac mae'n rhaid i'r gwaith barhau i ddatblygu'r weledigaeth a'r strategaethau i'w chyflawni.

Diolch i bawb am ymweliad gwyh.

Yr wythnos hon yw wythnos olaf y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ruth Walker wrth iddi ddechrau ar ei thaith ymddeol. Mae Ruth wedi bod yn ffigwr blaenllaw allweddol yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mlynedd diwethaf a byddwn yn gweld eisiau ei phroffesiynoldeb, ei hymrwymiad a'i natur ofalgar yn fawr. Mae Ruth wedi cael gyrfa drawiadol, gan ddechrau fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a chyflawni ei rôl Weithredol bresennol. Yn ogystal, mae Ruth wedi cydbwysu ei rôl heriol bresennol gyda'i gwaith gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig iawn i ddatblygiad parhaus y proffesiwn.



Dewch o hyd i amser yr wythnos hon i siarad â Ruth os gallwch chi, neu anfonwch neges ati gan fy mod yn gwybod ei bod yn awyddus i dreulio amser yn ffurweliu â chymaint o gydweithwyr â phosibl yn ystod ei dyddiau olaf gyda ni. Hoffwn hefyd estyn fy nioch dwfn a phersonol i Ruth am ei charedigrwydd a'i chefnogaeth i mi yn ystod fy ychydig fisoedd cyntaf yma yn CAF. Mae profiad, arbenigedd a doethineb sylweddol Ruth wedi bod yn amlwg ac rwy'n ffodus iddi fod mor barod i rannu popeth gyda mi dros y misoedd diwethaf. Diolch Ruth. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau i chi gyda'ch anturiaethau nesaf, beth bynnag a fyddant.

Penodi Dr Richard Skone yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Meddygol

Hoffwn hefyd roi croeso cynnes iawn i Dr Richard Skone sydd wedi'i benodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Meddygol newydd y Bwrdd Iechyd.

Mae gan Richard gefndir trawiadol mewn anestheteg a meddygaeth bediatrig ers 2003 ar ôl astudio yn Ysgol Feddygol Prifysgol Rhydychen. Dechreuodd Richard ei yrfa gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2012, ac yn ddiweddar mae wedi bod yn gweithio fel Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer y Gweithlu ac Ailddilysu yn ogystal â chyflawni swyddi Swyddog Cyfrifol a Chyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol ar gyfer gwasanaethau arbenigol tan fis Rhagfyr 2020.

Yn y rôl newydd hon, bydd yn cefnogi'r Athro Meriel Jenney, Cyfarwyddwr Meddygol, ar welliannau ansawdd parhaus yn ogystal â darparu cyngor clinigol i'r bwrdd.

Wrth siarad am ei benodiad, dywedodd

Richard: "Rwy'n credu bod rôl y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol yn rhoi cyfle unigryw i ymgysylltu â chydweithwyr fel y gallwn ddarparu system o safon uchel sy'n rhoi'r sicrwydd mwyaf, ac sy'n darparu'r gofal gorau i gymuned ein cleifion a'u teuluoedd."



Llongyfarchiadau Richard. Rwy'n edrych ymlaen at eich cael chi'n rhan o'r Uwch Dîm Arwain a chydweithio'n agosach yn ystod y misoedd nesaf.

Bydwraig ddigidol gyntaf BIP Caerdydd a'r Fro yn ennill Gwobr Rhagoriaeth CNO

Llongyfarchiadau i Donna James, bydwraig ddigidol gyntaf y Bwrdd Iechyd, a dderbyniodd Gwobr Rhagoriaeth CNO am ei gwaith rhagorol yn trawsnewid gwasanaethau a chynyddu diogelwch i deuluoedd.

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Fydwraig, ymunodd Prif Swyddog Nyrsio Cymru,

Sue Tranka, â thimau bydwreigiaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru i gyhoeddi enillwyr diweddaraf Gwobrau Rhagoriaeth CNO.

Cyflwynwyd y wobr i Donna James am ei hymroddiad eithriadol i'r gwasanaeth, ei chleifion a'u teuluoedd. Derbyniodd pum bydwraig arall wobrau hefyd am eu cyfraniadau rhagorol. Darllenwch ragor [yma](#).

Lansio Ein Gweirgloddiau Gwych

Ar 11 Mai, aeth yr Elusen Iechyd i lansiad Gweirgloddiau Gwych ym Mharc y Mynydd Bychan. Mae Gweirgloddiau Gwych yn brosiect ar y cyd â Plantlife, Cyngor Caerdydd, a sawl un arall sy'n canolbwyntio'n bennaf ar annog cleifion, staff, gofalmwyr ac ymwelwyr i ddefnyddio'r tri llwybr a amlinellir ar fap newydd er budd eu Hiechyd a'u Lles. Gellir gweld y mapiau hyn wrth fynedfeydd y parc, ac ar dir Ysbyty Athrofaol Cymru.



Yn ogystal â hyn, comisiynodd Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles Weithdai Beth Morris i greu darn unigryw o gelf gyda dros 50 o blant. Gofynnwyd iddynt feddwl am y ddôl a'r bywyd gwyllt, ac yn eu tro roeddent yn darlunio golygfeydd o chwarae ac ymlacio mewn maes chwarae naturiol dychmygol. Mae'r gwaith celf mawr a lliwgar yn cael ei arddangos ar brif goridor Ysbyty Athrofaol Cymru i bawb ei weld.



Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia, Rhyngrywiaeth a Thrawsffobia

Ddydd Mawrth, mae hi'n Ddiwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia, Rhyngrywiaeth a Thrawsffobia (IDAHOBIT), sy'n digwydd ar 17 Mai bob blwyddyn. Dewiswyd y dyddiad hwn a gydnabyddir yn fyd-eang i nodi penderfyniad [Sefydliad Iechyd y Byd \(WHO\)](#) i dynnu cyfunrhywiaeth o'r [Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau](#) ym 1990.

Pwrrpas IDAHOBIT yw codi ymwybyddiaeth a rhoi sylw i'r materion y mae cymunedau [LHDTC+](#) byd-eang yn eu hwynebu o hyd ac annog pobl ledled y byd i gefnogi'r cymunedau a hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae gwaith yn rhan enfawr o fywyd a hunaniaeth rhywun, felly mae cynhwysiant yn y gweithle yn hynod bwysig i ni yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Y ffordd orau y gallwn gyflawni hyn yw trwy annog ein staff i fod yn gynghreiriaid i'n cymuned LHDTC+ ac i frwydro yn erbyn unrhyw ymddygiad gwrth-LHDTC+ pan fyddwn yn dod ar ei draws.

Mae ein Rhwydwaith Staff LHDTC+ yn agored i gynghreiriaid sydd am helpu i wella bywyd gwaith aelodau staff LHDTC+ ein Bwrdd Iechyd. Bydd sesiynau hyfforddi'r rhwydwaith ar Rywioldeb mewn Gofal Iechyd a Materion Traws ac Anneuaidd yn cael eu hail-lansio yn ddiweddarach eleni ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn datblygu eu cynghreiriaeth a dysgu mwy am y cymunedau LHDTC+ a'u profiadau.



Mae croeso i aelodau staff LHDTC+ fynychu ein sesiynau Rhwydwaith Cymorth Cymheiriaid LHDTC+, ac mae croeso i gynghreiriaid fynychu ein sesiynau cynghreiriad chwarterol. I gael

gwybod mwy am y sesiynau hyfforddi neu'r Rhwydwaith Cymorth Cymheiriaid, cysylltwch â LGBTQ+Network.CAV@wales.nhs.uk.

Wrth i ni nesáu at fis Pride, cadwch eich llygaid ar agor am ein straeon staff a chleifion a'n haddewid cynghreiriad sydd ar y gweill, a fydd yn rhoi mynediad i chi at gefndir pride/cynghreiriad ar gyfer Microsoft Teams.

Dathlu Cydweithwyr o Dîm CAF yng Ngwobrau Menter Cancer Moondance

Mae cydweithwyr o BIP Caerdydd a'r Fro wedi cael eu cydnabod yng Ngwobrau cyntaf Menter Cancer Moondance.

Ar y rhestr fer, a gafodd ei chyhoeddi yr wythnos diwethaf, roedd Claire Salisbury, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Caffael, Mr James Peaker, Gwyddonydd Biofeddygol Ymgynghorol mewn Patholeg Gastroberfeddol, Dr Hasan Haboubi, Gastroenterolegydd Ymgynghorol a Dr Mohid Shakil Khan, Gastroenterolegydd Ymgynghorol i gyd wedi'u henwebu ar gyfer gwobrau i arddangos eu cyflawniadau a'u harloesedd mewn gwasanaethau cancer dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae Menter Cancer Moondance yn bodoli i ganfod, ariannu a hybu pobl wych a syniadau dewr i wneud Cymru yn arweinydd y byd o ran cyfraddau goroesi cancer. Nod y gwobrau yw dathlu a rhoi sylw i bobl ledled GIG Cymru a'i bartneriaid sydd wedi cynnal ac arloesi ym maes gwasanaethau cancer er gwaethaf amgylchiadau eithriadol y ddwy flynedd ddiwethaf.

Hoffem estyn ein llongyfarchiadau diffuant i'r unigolion a'r timau o Dîm CAF sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer y gwobrau hyn a dymuno pob lwc iddynt!

Cynhelir y gwobrau ddydd Iau 16 Mehefin yn Depot, Caerdydd, dan ofal y cyflwynydd BBC a'r Cymro poblogaidd, Jason Mohammad. I gael gwybod mwy ac i weld rhestr fer fanwl, [cliciwch yma](#).

Dathlu cyflawniadau staff yn ein Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol

Llongyfarchiadau i bawb a wobrwyyd yn y digwyddiad cydnabod staff ffisiotherapi a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, i ddatlu gwaith caled a gwasanaeth ymroddedig staff clinigol BIP Caerdydd a'r Fro dros y 18 mis diwethaf.

Diolch i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro am gefnogi'r digwyddiad hwn a ddyfarnodd ddeg enillydd teilwng.

Dywedodd Emma Cooke, Cyfarwyddwr Therapiau Clinigol: "Hoffwn ddiolch o galon i'n holl staff clinigol am eu hymrwymiad i'n Bwrdd Iechyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd iawn a welwyd yn y maes gofal iechyd o ganlyniad i'r pandemig. Heb eu hymdrechion a'u gofal ni fyddem wedi gallu gwneud y gwaith pwysig a wnawn i ofalu am gymunedau a chleifion Caerdydd a'r Fro.

"Llongyfarchiadau diffuant i'n holl enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail, rydych chi i gyd, yn unigol, yn wirioneddol deilwng o'r gwobrau hyn."

Gallwch weld crynodeb o gategorïau'r gwobrau, yr enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail [yma](#).